

# Amlinelliad o'r Cymhwyster TGAU Cymraeg Craidd – Fersiwn Ymgynghori



Gwnaed i Gymru.  
Yn barod i'r byd.

## Cyflwyniad

Yn y ddogfen hon mae trosolwg ar lefel uchel o'r cymhwyster CBAC Cymraeg Craidd arfaethedig.

Mae'n seiliedig ar Feini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru (mae adrannau allweddol wedi'u cynnwys yn Atodiad 1). **Rhaid** i'n cymhwyster ni fodloni'r gofynion hyn.

Bydd yr amlinelliad hwn o'r cymhwyster yn gweithio fel canllaw ar gyfer datblygu'r Fanyleb a'r Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (DAE).

## Trosolwg o'r Cymhwyster

Mae lluniad cymhwyster **TGAU Cymraeg Craidd** yn seiliedig ar ystyriaethau pwnc penodol Llywodraeth Cymru<sup>1</sup> a datganiadau o'r hyn sy'n bwysig i leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu<sup>2</sup>:

- deall y byd o'n hamgylch
- mwynhau'r Gymraeg a gweld gwerth i'r iaith honno y tu allan i'r ystafell ddosbarth
- defnyddio iaith sy'n gysylltiedig â diddordebau
- datblygu'r defnydd o'r Gymraeg ar gyfer cymdeithasu ac yn y gweithle
- amrywiaeth eang o gyfleoedd i ddysgwyr glywed, gweld a darllen deunydd sy'n gyfoethog ac amrywiol yn yr iaith Gymraeg
- meithrin sgiliau ieithyddol er mwyn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus.

Bydd y cymhwyster TGAU Cymraeg Craidd yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy wneud hyn:

- Cefnogi'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig<sup>3</sup>, gan roi cyfle i'r dysgwyr:
  - ddatblygu eu dealltwriaeth, eu hempoethi a'u gallu i ymateb a chyfryngu'n effeithiol
  - rhyngweithio, archwilio syniadau, mynegi safbwyntiau, gwybodaeth a dealltwriaeth ac adeiladu perthnasoedd
  - profi ac ymateb i amrywiaeth o weithiau llenyddol amrywiol sy'n rhoi mewnwelediad iddyn nhw o ddiwylliant, pobl a hanes Cymru a hefyd y byd ehangach
  - sbarduno eu dychymyg a'u creadigrwydd.
- Cefnogi egwyddorion dilyniant<sup>4</sup> drwy roi cyfle i ddysgwyr:
  - adeiladu ar eu sgiliau ieithyddol

---

<sup>1</sup> [leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu; Cyflwyniad - Hwb \(gov.wales\)](#)

<sup>2</sup> [leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu; Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig - Hwb \(llyw.cymru\)](#)

<sup>3</sup> [leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu; Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig - Hwb \(llyw.cymru\)](#)

<sup>4</sup> [leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu; Egwyddorion cynnydd - Hwb \(llyw.cymru\)](#)

- tyfu mewn ffordd gyfannol o ran sut maen nhw'n deall ac yn gallu gwneud defnydd pwrpasol o ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu
  - datblygu eu repertoire ieithyddol drwy ddeall sut mae'r Gymraeg yn gweithio
  - addasu a thrin iaith er mwyn cyfathrebu'n effeithiol ag amrywiaeth o gynulleidfaoedd gwahanol
  - meithrin sgiliau iaith derbyn, dehongli a mynegi
  - trosglwyddo'r wybodaeth a'r sgiliau sydd ganddyn nhw'n barod i gyd-destunau newydd gan gynnwys yr agweddau cymdeithasol a diwylliannol ar iaith.
- Cefnogi'r ystyriaethau allweddol ar gyfer datblygu ieithoedd<sup>5</sup> drwy roi cyfle i ddysgwyr:
    - ddatblygu ymwybyddiaeth ffonolegol ac ymwybyddiaeth ffonemig
    - adeiladu ar wybodaeth flaenorol dysgwyr o iaith (ieithoedd) i gefnogi dysgu'r Gymraeg
    - glywed, gweld, a darllen Cymraeg cyfoethog ac amrywiol
    - darparu cyfleoedd addas a digonol i ddysgwyr ddefnyddio eu Cymraeg mewn ffordd bwrpasol ac mewn cyd-destun dilys.

## Strwythur Arfaethedig y Cymhwyster

### Uned 1: Siarad a Gwranddo

Asesiad di-arholiad

25% o'r cymhwyster

Tasg i bâr/grŵp o dri a darperir symbyliadau gan CBAC i ysgogi trafodaeth.

Wedi'i gosod gan CBAC, ei marcio gan y ganolfan a'i chymedroli gan CBAC

### Uned 2: Siarad a Gwranddo

Asesiad di-arholiad

25% o'r cymhwyster

Tasg unigol a darperir symbyliadau gan CBAC i ysgogi trafodaeth

Wedi'i gosod gan CBAC, ei marcio gan y ganolfan a'i chymedroli gan CBAC

### Uned 3: Darllen ac Ysgrifennu

Arholiad ysgrifenedig

25% o'r cymhwyster

Tasg ddarllen a chyfieithu. (Darllen 12% Ysgrifennu 13%)

Wedi'i gosod a'i marcio gan CBAC

### Uned 4: Darllen ac Ysgrifennu

Arholiad ysgrifenedig

25% o'r cymhwyster

Tasg drawsieithu (Darllen 13% Ysgrifennu 12%)

Wedi'i gosod a'i marcio gan CBAC

Cymhwyster llinol fydd hwn.

<sup>5</sup> [Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu; Cynllunio eich cwricwlwm - Hwb \(Ilyw.Cymru\)](#)

## Gwybodaeth am Unedau

### Uned 1 - Siarad a Gwranddo

#### Pwrpas yr uned hon yw:

- Galluogi dysgwyr i ddeall a defnyddio'r Gymraeg gydag eraill mewn ffordd ddigymell a hyderus
- Defnyddio'r Gymraeg i gyfathrebu a rhyngweithio ag eraill
- Defnyddio amrywiaeth o frawddegau, patrymau iaith ac amserau gwahanol y ferf i gyfleu gwybodaeth, mynegi a chyfiawnhau barn
- Gofyn ac ymateb yn effeithiol i gwestiynau
- Dangos dealltwriaeth o iaith lafar gan fwy nag un siaradwr
- Deall y brif neges, manylion penodol a gwahanol safbwyntiau
- Defnyddio cywair priodol ac ynganu'n glir
- Dangos dealltwriaeth o iaith lafar wrth wrando ar un neu fwy o siaradwyr mewn sefyllfaoedd cymdeithasol

Bydd yr uned hon yn seiliedig ar y cysyniadau canlynol:

- Rhyngweithio
- Mynegi
- Cefnogi datblygiad diwylliannol

Bydd yr uned hon ar ffurf asesiad di-arholiad, yn ystod ail hanner tymor yr Hydref ym mlwyddyn olaf y cwrs. Bydd y cymysgedd o dasgau ar gyfer yr uned hon yn targedu AA1 ac AA2, gyda'r un pwysoli ar gyfer y ddau amcan asesu. Bydd pwysoli'r Siarad yn 10% a phwysoli'r Gwranddo yn 15% ar gyfer yr uned hon. Tasg i bâr o ddysgwyr neu grŵp o dri fydd hon, a bydd CBAC yn darparu symbyliadau gweledol i ysgogi trafodaeth gyda chyfle hefyd i wrando ar acenion a thafodieithoedd gwahanol. Mae CBAC yn cynnig 6-8 munud ar gyfer y pâr ac 8-10 munud ar gyfer grŵp o dri. Bydd CBAC yn gosod yr asesiad di-arholiad, bydd yn cael ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC. **Rhaid** cyflwyno'r gwaith yn ddigidol i CBAC. Awgrymir lefel uchel o reolaeth ar gyfer yr uned hon.

### Uned 2 - Siarad a Gwranddo

#### Pwrpas yr uned hon yw:

- Galluogi dysgwyr i ddeall a defnyddio'r Gymraeg gydag eraill mewn ffordd ddigymell a hyderus
- Cyfathrebu a rhyngweithio gan ddefnyddio'r Gymraeg
- Defnyddio amrywiaeth o frawddegau, patrymau iaith ac amserau gwahanol y ferf i gyfleu gwybodaeth, mynegi a chyfiawnhau barn
- Defnyddio cywair priodol ac ynganu'n glir
- Dangos dealltwriaeth o iaith lafar wrth wrando ar un neu fwy o siaradwyr mewn sefyllfaoedd cyhoeddus
- Deall y brif neges, manylion penodol a gwahanol safbwyntiau
- Galluogi dysgwyr i ymateb i gwestiynau gan gyfoedion / unigolion eraill

Bydd yr uned hon yn seiliedig ar y cysyniadau canlynol:

- Rhyngweithio
- Mynegi
- Cefnogi datblygiad diwylliannol

Bydd yr uned hon ar ffurf asesiad di-arholiad ac yn cael ei chyflwyno yn ystod tymor y Gwanwyn ym mlwyddyn olaf y cwrs. Bydd y cymysgedd o dasgau ar gyfer yr uned hon yn targedu AA1 ac AA2, gyda'r un pwysoli ar gyfer y ddau amcan asesu. Bydd pwysoli'r Siarad yn 20% a phwysoli'r Gwranddo yn 5% ar gyfer yr uned hon. Awgrymir tasg unigol ar gyfer yr uned gyda 3-6 munud i drafod ag aseswr. Bydd CBAC yn darparu cyfres o gwestiynau gyda 10 munud i baratoi. Bydd dewis o sawl testun ar gael. Rhaid i'r asesiad di-arholiad gael ei osod gan CBAC, ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC. **Rhaid** cyflwyno'r gwaith yn ddigidol i CBAC. Awgrymir lefel uchel o reolaeth.

### Uned 3 - Darllen ac Ysgrifennu

#### **Pwrpas yr uned hon yw:**

- **Galluogi dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau ysgrifennu a darllen yn y Gymraeg**
- **Defnyddio amrywiaeth o batrymau iaith**
- **Defnyddio amserau gwahanol y ferf**
- **Deall ac ymateb i fathau gwahanol o iaith ysgrifenedig ar wahanol ffurfiau a ysgrifennwyd at amrywiaeth o ddibenion a chynulleidfaoedd**
- **Deall y brif neges, y prif bwyntiau, manylion penodol a gwahanol safbwyntiau mewn amrywiaeth o destunau ysgrifenedig hir a byr, syml a chymhleth, sydd yn defnyddio gwahanol amserau'r ferf.**
- **Helpu dysgwyr i ddeall y rhyngberthynas rhwng eu dysgu a'r byd gwaith sy'n gynig cyfleoedd iddyn nhw sy'n gysylltiedig â'r byd gwaith a gyrfaoedd**

Bydd yr uned hon yn seiliedig ar y cysyniadau canlynol:

- Mynegi
- Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth
- Cefnogi datblygiad diwylliannol

Asesir yr uned drwy arholiad a fydd ar gael yn y gyfres haf yn y flwyddyn olaf o astudio. Mae'r cymysgedd o dasgau ar gyfer yr uned hon yn targedu AA1 ac AA2, gyda'r un pwysoli ar gyfer y ddau amcan asesu. Bydd pwysoli o 12% am y Darllen a phwysoli o 13% am yr Ysgrifennu ar gyfer yr uned hon. Mae'n debygol y bydd yr arholiad tuag 1 awr a 30 munud o hyd. CBAC fydd yn ei osod a'i farcio.

Ni fydd opsiynau yn yr uned hon.

Bydd y deunyddiau asesu a/neu'r deunyddiau ysgogi yn rhoi cyfle i ddysgwyr:

- archwilio ac ymateb i gyd-destunau lleol a chyd-destunau Cymreig ehangach



- ystyried cynnwys a deunyddiau sy'n adlewyrchu Cymru amrywiol
- mireinio gwaith drwy brawfddarllen a golygu
- cyfieithu testun byr a syml o'r Saesneg i'r Gymraeg.

## Uned 4 - Darllen ac Ysgrifennu

### **Pwrpas yr uned hon yw:**

- **Galluogi dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau ysgrifennu a darllen yn y Gymraeg**
- **Defnyddio amrywiaeth o batrymau iaith**
- **Defnyddio amserau gwahanol y ferf**
- **Deall ac ymateb i fathau gwahanol o iaith ysgrifenedig ar wahanol ffurfiau, a ysgrifennwyd at amrywiaeth o ddibenion a chynulleidfaoedd**
- **Deall y brif neges, y prif bwyntiau, manylion penodol a gwahanol safbwyntiau mewn amrywiaeth o destunau ysgrifenedig hir a byr, syml a chymhleth, sydd yn defnyddio gwahanol amserau'r ferf.**
- **Cyfle i feddwl yn greadigol ac i fod yn ddychmygus wrth gymhwyso eu sgiliau**

Bydd yr uned hon yn seiliedig ar y cysyniadau canlynol:

- Mynegi
- Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth
- Cefnogi datblygiad diwylliannol

Asesir yr uned drwy arholiad a fydd ar gael yn y gyfres haf, yn y flwyddyn olaf o astudio. Mae'r cymysgedd o dasgau ar gyfer yr uned hon yn targedu AA1 ac AA2, gyda'r un pwysoli ar gyfer y ddau amcan asesu. Bydd pwysoli o 12% am y Darllen a phwysoli o 13% am yr Ysgrifennu ar gyfer yr uned hon. Mae'n debygol y bydd yr arholiad tuag 1 awr a 30 munud o hyd. CBAC fydd yn ei osod a'i farcio.

Ni fydd opsiynau yn yr uned hon.

Bydd y deunyddiau asesu a/neu'r deunyddiau ysgogi yn rhoi cyfle i ddysgwyr:

- archwilio ac ymateb i gyd-destunau lleol a chyd-destunau Cymreig ehangach
- ystyried cynnwys a deunyddiau sy'n adlewyrchu Cymru amrywiol
- gwrando ar wahanol acenion a thafodieithoedd
- trawsieithu
- mireinio gwaith drwy brawfddarllen a golygu
- cyfieithu testun byr a syml o'r Saesneg i'r Gymraeg

## **Ystyriaeth o hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd**

Wrth ddatblygu'r amlinelliad hwn o'r cymhwyster arfaethedig, rydym wedi ystyried hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd a hefyd sut i gydbwysu'r ystyriaethau hyn yng nghyd-destun gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo.

Yn ôl gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo mae angen asesu 50% o'r cymhwyster drwy asesiad di-arholiad. Bydd CBAC yn ei osod, y ganolfan yn ei farcio a CBAC yn ei gymedroli. Gallai hyn olygu rhai heriau o ran hydrinedd ond bwriadwn leihau'r rhain i'r eithaf drwy

ledaenu'r llwyth gwaith ac asesu ar gyfer canolfannau a dysgwyr. Gan fod y Meini Prawf Cymeradwyo yn nodi ei bod yn ofynnol i'r cymhwyster fod yn llinol, mae hyn yn golygu bod rhai cyfyngiadau. Bwriadwn felly ddarparu'r asesiad Uned 1 ar gyfer dysgwyr yn nhymor yr Hydref ym mlwyddyn olaf yr astudio ac i ddarparu Uned 2 ar gyfer dysgwyr yn nhymor y Gwanwyn ym mlwyddyn olaf y cwrs. Bydd yn bosibl wedyn i asesu dysgwyr ar ôl iddynt ymgymryd ag addysgu a dysgu'r uned berthnasol. Er ein bod yn cydnabod bod hyn yn effeithio ar hydrinedd, daethpwyd i'r casgliad bod lefel uchel o reolaeth yn hanfodol ar gyfer y ddau asesiad di-arholiad er mwyn sicrhau gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo. Yn ôl y gofynion hyn, mae dysgwyr yn cyfathrebu ac yn rhyngweithio ar lafar mewn modd digymell.

Credwn y dylai'r cymhwyster arfaethedig gynnig cyfleoedd i ganolfannau ddatblygu rhaglen astudio ddeniadol ar gyfer eu dysgwyr, yn unol â disgygliadau'r Cwricwlwm i Gymru. Yn yr unedau siarad a gwrando, canolbwyntir ar ddefnydd dysgwyr o iaith sy'n gysylltiedig â'u diddordebau ac yn datblygu'r defnydd o'r Gymraeg ar gyfer cymdeithasu ac yn y gweithle. Bydd cynnwys yr unedau darllen ac ysgrifennu'n ymdrin ag amrywiol fathau o iaith ysgrifenedig, gan adlewyrchu'r amrywiaeth sydd yng Nghymru. Anogir dysgwyr i feddwl yn greadigol ac i ddeall y rhyngberthynas rhwng eu dysgu nhw a'r byd gwaith.

Credwn fod yr tasgau asesu di-arholiad a gynigiwyd ar gyfer yr unedau siarad a gwrando (Unedau 1 a 2) yn ffordd ddilys o asesu'r pwrpas a'r cynnwys. Byddant yn caniatáu i fyfyrwyr ddangos eu sgiliau mewn cyd-destunau priodol. Er mwyn sicrhau bod yr asesiad di-arholiad yn ddibynadwy, byddwn yn sicrhau bod pob uned yn targedu'r un pwysoliadau o ran yr amcanion asesu dros amser. Datblygir meini prawf marcio a bydd pecyn o gefnogaeth ar gael i athrawon a fydd yn sicrhau bod y meini prawf marcio'n cael eu cymhwyso'n gyson ar draws canolfannau a dros amser. Byddwn yn cymedroli sampl o waith ymgeiswyr o bob canolfan fel ffordd ychwanegol o sicrhau dilysrwydd.

Credwn y gellir asesu pwrpas a chynnwys yr unedau darllen ac ysgrifennu (Unedau 3 a 4) yn ddilys drwy arholiad. Bydd cymysgedd o fathau o gwestiynau'n fodd o'n helpu i'w gwneud mor ddilys â phosibl. Wrth ddatblygu asesiadau, byddwn yn sicrhau bod yr holl dasgau'n targedu'r lluniad perthnasol, gan gydbwyso'r cynnwys dros amser yn briodol ac alinio'r eitemau asesu a'r canlyniadau dysgu. Lle bynnag y bo'n briodol gwneud hynny byddwn yn defnyddio data sydd ar gael i ni o ran sut y gweithredodd yr asesiad. I sicrhau eu bod yn ddibynadwy, byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod yr unedau arholiad yn targedu'r un pwysoliadau o ran amcanion asesu a bod lefel y galw'n gyson ym mhob cyfres. Datblygir meini prawf marcio a bydd aseswyr yn cael eu hyfforddi o ran sut i'w cymhwyso'n gyson.

Byddwn yn parhau i ystyried y cydbwysedd o ran hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd ym mhob cam o ddatblygu'r cymhwyster.

## Atodiad 1

### Gwybodaeth allweddol o'r Meini Prawf Cymeradwyo

Daeth y wybodaeth sy'n dilyn yn syth o [Feini Prawf Cymeradwyo - TGAU Cymraeg Craidd](#) Cymwysterau Cymru - ac mae'n rhaid i'n cymhwyster ni fodloni'r gofynion hyn.

#### Pwrpas

##### 1. Rhaid i TGAU Cymraeg Craidd:

- 1.1. gael ei dylunio'n bennaf ar gyfer Dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg
- 1.2. adeiladu ar y ddealltwriaeth gysyniadol y mae Dysgwyr wedi'i datblygu drwy eu haddysg rhwng 3 ac 14 oed
- 1.3. cefnogi addysgu a dysgu drwy ddarparu cynnwys ac asesiadau sy'n briodol o eang, heriol, perthnasol a diddorol sy'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm i Gymru ac yn ei gefnogi, gan gynnwys ei bedwar diben
- 1.4. galluogi Dysgwyr i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i astudio ôl-16 ac sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith
- 1.5. darparu gwybodaeth ystyrlon, deg a chywir am gyflawniad Dysgwyr mewn pwnc sy'n amlygu'r hyn y mae Dysgwyr yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud

#### Nodau

##### 2. Rhaid i TGAU Cymraeg Craidd:

- 2.1. ganiatáu i Ddysgwyr archwilio amrywiaeth o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn perthynas â'r Gymraeg
- 2.2. darparu cyfleoedd i Ddysgwyr gael eu hasesu mewn amrywiaeth o gyd-destunau perthnasol ac ystyrlon

##### 3. Rhaid i TGAU Cymraeg Craidd gefnogi Dysgwyr i:

- 3.1. ddatblygu dealltwriaeth o'r iaith
- 3.2. cyfathrebu'n glir, yn gywir ac yn greadigol yn y Gymraeg
- 3.3. datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o eirfa, gramadeg a strwythurau'r Gymraeg
- 3.4. mynegi eu hunain mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac at wahanol gynulleidfaoedd a dibenion
- 3.5. cyfrannu'n ddigymell i sgwrs/trafodaeth

4. Rhaid i'r cymhwyster gael ei ddylunio i hyrwyddo profiad cadarnhaol a pherthnasol o'r Gymraeg a diwylliannau Cymru.



## Amcanion Asesu

- Yn yr asesiad o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol yn y cymhwyster, rhaid targedu'r amcanion asesu canlynol i gyfateb i'r pwysoli a nodir.

<b>AA1</b>	<p><b>Deall ac ymateb:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• deall ac ymateb yn feirniadol i amrywiaeth o destunau ysgrifenedig a llafar, gan ddewis a gwerthuso pwyntiau perthnasol i egluro a chefnogi dehongliadau a datblygu syniadau</li> <li>• gwneud cymariaethau ac egluro cysylltiadau o fewn a rhwng testunau ysgrifenedig a chyfathrebu llafar, gan ddefnyddio terminoleg briodol a chefnogi barn gyda manylion priodol o'r testun</li> <li>• cyfathrebu meddyliau, teimladau a barn mewn amrywiaeth o gyd-destunau, gan strwythuro dadleuon a herio'r hyn mae eraill yn ei ddweud yn hyderus ac yn sensitif</li> <li>• deall testunau ysgrifenedig a chyfathrebu llafar, gan gydnabod amrywiaeth o safbwyntiau yn feirniadol er mwyn dod i gasgliadau ystyriol</li> <li>• defnyddio sgiliau cyfieithu i wella cyfathrebu</li> </ul>	50%
<b>AA2</b>	<p><b>Mynegi a chyfathrebu:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cyfathrebu'n glir ac effeithiol mewn cyd-destunau gwahanol, gan ddefnyddio ffurfiau, geirfa a thechnegau i ennyn diddordeb y darllenydd/gwrandawr</li> <li>• addasu cyfathrebu trwy ddewis cywair, geirfa a thechnegau sy'n briodol i wahanol gyd-destunau a chynulleidfaoedd</li> <li>• trefnu cyfathrebu gan ddefnyddio amrywiaeth o nodweddion ieithyddol a strwythurol</li> <li>• defnyddio amrywiaeth o strwythurau brawddegau ar gyfer eglurder, pwrpas ac effaith, gyda gramadeg cywir ac, mewn cyfathrebu ysgrifenedig, atalnodi a sillafu cywir</li> </ul>	50%

## Cynllun asesu

- Rhaid i'r cymhwyster TGAU Cymraeg Craidd fod yn llinol.
- Ni ddylai'r cymhwyster hwn fod mewn haenau.

Rhaid i'r cymhwyster **TGAU Cymraeg Craidd** gynnwys y trefniadau asesu canlynol:

- 15.1. bydd cyfanswm o 50% o'r cymhwyster yn cael ei asesu drwy asesiad(au) di-arholiad a fydd yn cael eu gosod gan y corff dyfarnu, eu marcio gan y Ganolfan, a'u cymedroli gan y corff dyfarnu.
- 15.2. bydd yr asesiad di-arholiad yn asesu'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a restrir gan ddefnyddio dulliau siarad a gwranddo, gyda siarad yn cyfrannu 30%, a gwranddo yn cyfrannu 20% tuag at y cymhwyster cyffredinol
- 15.3 cynhelir yr asesiad di-arholiad ar ddyddiadau a bennir gan y corff dyfarnu
- 15.4. rhaid i'r corff dyfarnu ddarparu o leiaf un cyfle ar gyfer pob asesiad di-arholiad a rhaid i'r asesiad ddigwydd yn ystod blwyddyn olaf y cwrs (cyn cyfres arholiadau'r haf).

- 15.5. rhaid i bob asesiad o sgiliau siarad ei gwneud yn ofynnol i Ddysgwyr gyfathrebu a rhyngweithio ar lafar mewn modd digymell
- 15.6. bydd asesu drwy arholiad yn cyfrif am 50% o'r cymhwyster a chânt eu gosod a'u marcio gan y corff dyfarnu
- 15.7. bydd asesiadau trwy arholiad yn gofyn i Ddysgwyr ddangos sgiliau deall ac ymateb (trwy ddarllen), a sgiliau cyfathrebu a mynegiant (trwy ysgrifennu) a byddant yn rhoi'r un pwysoliad i'r ddwy set o sgiliau
- 15.8. ni ddylid caniatáu geiriaduron
- 15.9. rhaid i ddeunyddiau asesu a/neu ddeunyddiau ysgogi roi cyfle i *Ddysgwyr*:
  - 15.9.1. archwilio ac ymateb i gyd-destunau lleol a chyd-destunau Cymreig ehangach.
  - 15.9.2. ystyried cynnwys a deunyddiau sy'n adlewyrchu Cymru amrywiol
  - 15.9.3. gwrando ar wahanol acenion a thafodieithoedd
  - 15.9.4. trawsieithu
  - 15.9.5. mireinio gwaith drwy brawfddarllen a golygu
  - 15.9.6. cyfieithu testunau byr a syml o'r Saesneg i'r Gymraeg